



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio gohebiaeth:

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2



Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Methodoleg	2
3	Canfyddiadau	3
4	Tueddiadau	5
5	Casgliadau ac Argymhellion	6
	Atodiadau	8

1 Cyflwyniad


- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
 - 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
 - 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
 - 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
 - 1.5 Mae cydymffurfiaeth sefydliadau rheoliadau rhif 2 â'r safonau gohebiaeth wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth eleni. Mae gohebiaeth yn un o'r prif ddulliau y mae sefydliadau'n eu defnyddio i gyfathrebu â'r cyhoedd. Mae arolygon y blynyddoedd diwethaf yn dangos fod amrywiaeth yn lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau hyn.
 - 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd â sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2, ac yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried er mwyn cefnogi a chryfhau cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad.
 - 1.7 Yn ogystal â'r adroddiad hwn, bydd canfyddiadau unigol yr arolygon yn cael eu trafod gyda phob sefydliad a fu'n rhan o'r gwaith, er mwyn darparu adborth wedi'i deilwra a chefnogi camau gwella penodol.
 - 1.8 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn, ynghyd â'r argymhellion a gyflwynir, yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2.
 - 1.9 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a rhannu'r canfyddiadau gyda'r sefydliadau yn unigol, disgwylir i bob sefydliad adrodd i'r Comisiynydd, o fewn tri mis, ar y camau sydd wedi eu cymryd i ymateb i'r argymhellion hyn.
-

2 Methodoleg


- 2.1 Arolygwyd sampl o 13 sefydliad sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2. Cynhaliwyd yr arolygon yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025.
 - 2.2 Mae Rheoliadau Rhif 2, sef y Rheoliadau sy'n berthnasol i ystod eang o sefydliadau cenedlaethol Cymru, a rhai sefydliadau sy'n gweithredu ar draws y DU., yn cynnwys saith safon (1-7) sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.
 - 2.3 At ddiben yr arolygon hyn, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safonau 1 a 7.
 - 2.4 Mae safon 1 yn nodi '*Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg*'.
 - 2.5 Mae safon 7 yn nodi '*Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi*'.
 - 2.6 Gwiriwyd cyfeiriadau e-bost cyffredinol a hysbysebwyd ar wefannau'r sefydliadau. Lle bo modd, profwyd hyd at dri chyfeiriad e-bost, ac anfonwyd hyd at dri neges Saesneg at bob cyfeiriad at ddibenion rheoli. Mewn achosion lle dim ond un cyfeiriad e-bost oedd ar gael, anfonwyd mwy nag un neges at yr un cyfeiriad. Mewn rhai achosion, dim ond ffurflenni cyswllt ar y wefan oedd ar gael.
 - 2.7 Anfonwyd cyfanswm o 69 o negeseuon i brofi cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r safonau perthnasol. Ar gyfer y negeseuon a anfonwyd yn Gymraeg, aseswyd i ba raddau yr oedd yr ymatebion yn cydymffurfio â Safon 1, gan gynnwys a oedd yr atebion yn cael eu darparu yn Gymraeg fel y gofynnir, ac a oedd unrhyw elfen o'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol yn yr ymatebion hynny.
 - 2.8 Ar yr un pryd, gwiriwyd a oedd yr ymatebion yn cynnwys y datganiad gofynnol o dan Safon 7, sy'n cadarnhau bod y sefydliad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu'n Gymraeg yn achosi oedi.
 - 2.9 Ar gyfer y negeseuon a anfonwyd yn Saesneg, canolbwyntiwyd ar wirio cydymffurfiaeth â Safon 7, gan asesu a oedd yr ymatebion yn cynnwys y datganiad statudol sydd i fod ar gael ni waeth ym mha iaith y derbynnir yr ohebiaeth.
-

3 Canfyddiadau

Ymatebion i negeseuon e-byst a chydymffurfiaeth â safon 1




- 3.1 Dangosodd yr arolygon eleni fod 51% o'r negeseuon Cymraeg a anfonwyd wedi cael ymateb. O'r ymatebion hynny, 84% oedd wedi'u darparu yn Gymraeg, sy'n gadarnhad pwysig bod llawer o'r sefydliadau'n cyflawni gofynion Safon 1 pan fyddant yn ymateb. Fodd bynnag, mae'r ffigur cychwynnol o 51% yn tanlinellu bod gofod sylweddol i wella o ran sicrhau bod pob neges Gymraeg yn cael ymateb amserol ac yn unol â'r safonau.



- 3.2 Yn achos y negeseuon a anfonwyd yn Saesneg, cafwyd ymateb i 67% ohonynt, sy'n gynydd amlwg o gymharu â'r gyfradd ymateb i negeseuon Cymraeg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyfradd ymateb yn awgrymu anghysondeb yn y ffordd y mae sefydliadau'n trin gohebiaeth yn dibynnu ar iaith y derbyniwyd hi.


Ymatebion i e-byst a chydymffurfiaeth â safon 7.

Cydymffurfiaeth ymatebion i'r negeseuon Cymraeg gyda Safon 7



- 3.3 O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg, nid oedd 47% yn cydymffurfio o gwbl â gofynion safon 7. Roedd 42% yn cydymffurfio yn rhannol, tra dim ond 11% o'r ymatebion oedd yn cydymffurfio'n llawn, gan gynnwys pob elfen ofynnol o Safon 7, sef datgan bod y sefydliad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.

Cydymffurfiaeth ymatebion i'r negeseuon Saesneg gyda Safon 7



- 3.4 Yn achos yr ymatebion i'r negeseuon Saesneg, roedd y lefelau cydymffurfio hyd yn oed yn is: 56% ddim yn cydymffurfio â gofyniad y safon, 38% yn cydymffurfio yn rhannol, a dim ond 6% yn cydymffurfio'n llawn. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r datganiad statudol gofynnol yn cael ei gyfathrebu'n gyson, hyd yn oed pan fo ymateb Saesneg yn cael ei roi — er ei fod i fod i ymddangos ym mhob ymateb, ni waeth pa iaith y derbynnir y gohebiaeth ynddi.

4 Tueddiadau

Cydymffurfiaeth â Safon 1

- 4.1 Roedd lefelau ymateb cyffredinol y sefydliadau yn isel, waeth beth fo iaith wreiddiol y neges. Mae hyn yn awgrymu bod heriau sylfaenol yn parhau o ran rheoli a phrosesu gohebiaeth yn gyson.
- 4.2 Roedd canran ychydig uwch o'r negeseuon a anfonwyd yn Saesneg wedi derbyn ymateb. Mae hyn yn codi cwestiwn teg ynghylch a yw iaith wreiddiol y neges yn ffactor sy'n dylanwadu ar a yw neges yn cael ei hateb ai peidio – rhywbeth nad yw'n gyson â'r egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 4.3 Lle'r oedd ymateb wedi dod i neges a anfonwyd yn Gymraeg, roedd 84% o'r ymatebion hynny yn cydymffurfio â gofynion Safon 1. Mae hyn yn dangos bod cydymffurfiaeth yn gryf pan fo ymateb yn digwydd, ond mae'r her mwyaf yn parhau i fod ynghylch sicrhau bod ymateb yn cael ei roi yn y lle cyntaf.

Cydymffurfiaeth â Safon 7

- 4.4 Dangosodd yr ymatebion a dderbyniwyd fod tua hanner ohonynt ddim yn cydymffurfio o gwbl â gofynion safon 7. Yn yr achosion hyn, nid oedd unrhyw ddatganiad statudol yn bresennol yn yr ymateb.
- 4.5 Roedd lefelau cydymffurfiaeth llawn â gofynion safon 7 yn arbennig o isel, gan awgrymu nad yw'r gofynion hyn wedi'u hymgorffori'n gyson yn nhrefniadau cyfathrebu sefydliadau.
- 4.6 Ymhlith yr ymatebion a oedd yn cydymffurfio'n rhannol, y prif broblem oedd y geiriad anghyflawn neu annigonol o fewn y datganiadau. Yn benodol, roedd nifer o'r datganiadau'n methu â chynnwys yr elfen hanfodol sy'n nodi'n glir y byddai gohebiaeth yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg. O ganlyniad, hyd yn oed pan oedd ymateb ar ryw ffurf yn cael ei roi, nid oedd yn bodloni gofynion llawn y safon.

Sylwadau pellach

- 4.7 Derbyniwyd neges e-bost awtomatig gan un sefydliad yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth a dderbyniwyd. Roedd yr e-bost hwn yn uniaith Saesneg, heb gynnwys unrhyw ddatganiad yn unol â gofynion safon 7, sy'n peri pryder o ran triniaeth y Gymraeg mewn cyfathrebu safonol sy'n debygol o gael ei anfon at nifer uchel o ddefnyddwyr.
 - 4.8 Derbyniwyd nifer o atebion awtomatig gan sefydliadau (yn ogystal ag ymatebion gan personol dilynol). O fewn yr ymatebion awtomatig hyn, nodwyd rhai materion cyffredin:
 - Cafwyd negeseuon dwyieithog, ond gyda'r Saesneg uwchben y Gymraeg, gan drin y Gymraeg yn llai ffafriol.
 - Nid oedd unrhyw ddatganiad Safon 7 mewn rhai negeseuon awtomatig.
 - Roedd datganiadau'n bresennol mewn rhai achosion, ond roedd y geiriad yn anghyflawn, gan olygu nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â Safon 7.
-

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Yn gyffredinol mae lefel cydymffurfiaeth â gofynion safon 1 yn uchel **pan fo ymateb yn cael ei dderbyn**. Mae hwn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn a dealltwriaeth gref o ofynion safon 1.
- 5.2 Serch hynny, mae'r nifer sylweddol o negeseuon nad ydynt yn derbyn ymateb o gwbl yn peri pryder – yn enwedig o ystyried bod canran ychydig uwch o negeseuon Saesneg yn derbyn ymateb o'u cymharu â'r rhai Cymraeg. Mae hyn yn codi cwestiwn pwysig ynghylch a yw iaith wreiddiol y neges yn cael effaith anghyfiawn neu anfwriadol ar y tebygolrwydd o ymateb, ac mae angen i sefydliadau archwilio hyn ymhellach i sicrhau triniaeth gyfartal i'r ddwy iaith.
- 5.3 Mae lefelau cydymffurfiaeth â Safon 7 yn sylweddol is nag sy'n dderbyniol, ac yn llawer is na'r hyn a welir ar gyfer Safon 1. Mae hyn yn awgrymu nad yw gofynion Safon 7 wedi'u hymgorffori'n gyson mewn prosesau gohebiaeth sefydliadol. Wrth bennu llofnodion e-bost ac unrhyw ymatebion awtomatig, mae'n hanfodol bod sefydliadau'n ystyried gofynion Safon 7 yn llawn ac yn sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n gywir ym mhob achos.
- 5.4 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2:

Argymhelliad 1: Trefniadau ymateb i ohebiaeth Gymraeg

- 5.5 Dylai sefydliadau adolygu'n systematig eu trefniadau ymateb i sicrhau fod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ymateb prydlon ac yn unol â'r safonau. Dylid darparu arweiniad clir a chyson i'r holl staff sy'n ymdrin â gohebiaeth, gan sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau ac yn hyderus wrth ymateb yn Gymraeg. Dylid ystyried hefyd a oes angen hyfforddiant ychwanegol neu drefniadau gwarchod (e.e. rhestrau gwirio, templedi) i sicrhau cysondeb.

Argymhelliad 2: Trefniadau ymatebion awtomatig sefydliadol

- 5.6 Dylai sefydliadau gynnal archwiliad rheolaidd yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o'r holl ymatebion awtomatig sy'n cael eu hanfon ar ran y sefydliad. Dylai'r archwiliad hwn wirio:
 - eu bod yn cydymffurfio â gofynion y safonau gohebu,
 - nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd (e.e. trefn iaith, cyflwyniad, cynnwys),
- 5.6.1 a bod datganiad Safon 7 yn cael ei gynnwys yn gywir ac yn gyflawn.

Argymhelliad 3: Cydymffurfiaeth â gofynion safon 7

- 5.7 Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau i sicrhau fod pob gohebiaeth allanol yn cynnwys datganiad clir, cyflawn ac addas sy'n cydymffurfio â gofynion safon 7. Nid oes angen i'r datganiad ddefnyddio geiriad uniongyrchol y safon, ond rhaid i'r datganiad adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymdrin â gohebiaeth at ofynion llawn y safon yn glir. Mae geiriad y cod ymarfer yn cynnig enghraifft glir ac ddwyieithog, a argymhellir fel sail i bob sefydliad.
-

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

Cyfanswm negeseuon Cymraeg anfonwyd	37
Nifer ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg	19
Nifer ymatebion Cymraeg a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg	16
Nifer o negeseuon Cymraeg na dderbyniodd ymateb o gwbl	18

Cyfanswm negeseuon Saesneg anfonwyd	24
Nifer ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Saesneg	16
Nifer o negeseuon Saesneg na dderbyniodd ymateb o gwbl	8

Nifer ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg	19
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion safon 7	2
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg oedd yn cydymffurfio'n rhannol gyda gofynion safon 7	8
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Cymraeg nad oedd yn cydymffurfio'n gyda gofynion safon 7 o gwbl	9

Nifer ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Saesneg	16
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Saesneg oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion safon 7	1
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Saesneg oedd yn cydymffurfio'n rhannol gyda gofynion safon 7	6
Nifer o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r negeseuon Saesneg nad oedd yn cydymffurfio'n gyda gofynion safon 7 o gwbl	9

Atodiad 2: Rhestr o'r sefydliadau fu'n rhan o'r arolwg

- Cyngor Celfyddydau Cymru
 - Cyngor Llyfrau Cymru
 - Cyngor Chwaraeon Cymru
 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 - Opera Genedlaethol Cymru
 - BBC
 - OFCOM
 - Amgueddfa Genedlaethol Cymru
 - Canolfan Mileniwm Cymru
 - Gardd Fotaneg Cymru
 - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
 - Y Comisiwn Etholiadol
 - Theatr Genedlaethol Cymru
-